



09.09.2026

Annwyl Riant/Gofalwr,

Gobeithio bod yr llythyr hwn yn eich cael yn iach a'ch bod chi a'ch teulu wedi cael gwyliau haf braf.

Rydym yn falch iawn o groesawu eich plentyn yn ôl i'r ysgol y tymor hwn ac yn edrych ymlaen at barhau i'w gefnogi ar ei daith ddysgu.

Efallai eich bod wedi sylwi, er bod gwersi Saesneg yn ymddangos ar amserlen eich plentyn, nad oes gwersi ar wahân wedi'u rhestru ar gyfer Hanes a Daearyddiaeth. Hoffwn egluro'r rheswm dros hyn a'ch sicrhau y bydd eich plentyn yn parhau i astudio'r holl feysydd pwysig hyn o'r cwricwlwm.

Eleni, bydd Hanes a Daearyddiaeth yn cael eu haddysgu gan **Mrs Nicola Beardmore**, sydd hefyd yn athrawes Saesneg eich plentyn. Mae hwn yn ddull bwriadol sydd wedi'i gynllunio i roi mwy o gysondeb i ddysgwyr, gan hefyd ein galluogi i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd drwy gwricwlwm eang a diddorol.

Yn hytrach na datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu, geirfa a chyfathrebu mewn gwersi Saesneg yn unig, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i **gymhwyso a chryfhau'r sgiliau hyn drwy eu gwaith mewn Hanes a Daearyddiaeth**. Er enghraifft, gallent ddatblygu sgiliau darllen drwy archwilio ffynhonnell hanesyddol, ehangu eu geirfa neu ymarfer ysgrifennu estynedig drwy bwnc mewn gwersi Daearyddiaeth. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau llythrennedd mewn gwahanol gyd-destunau ac yn eu helpu i ddeall sut mae'r sgiliau hyn yn cefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Bydd cael un athrawes gyson ar draws y meysydd hyn hefyd yn galluogi Mrs Beardmore i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o gryfderau ac anghenion llythrennedd pob dysgwr ac i addasu'r addysgu a'r gefnogaeth yn unol â hynny.

Dear Parent/Carer,

I hope this letter finds you well and that you and your family have had a lovely summer holiday.

We are delighted to welcome your child back to school this term and are looking forward to continuing to support them on their learning journey.

You may have noticed that, while English lessons appear on your child's timetable, there are no separate lessons listed for History and Geography. I wanted to explain the reason for this and reassure you that your child will continue to study all of these important areas of the curriculum.

This year, History and Geography will be taught by **Mrs Nicola Beardmore**, who is also your child's English teacher. This is a deliberate approach designed to provide greater consistency for pupils while also allowing us to develop their literacy skills through a broad and engaging curriculum.

Rather than developing reading, writing, vocabulary and communication skills only within English lessons, pupils will have opportunities to **apply and strengthen these skills through their work in History and Geography**. For example, they might develop reading skills through exploring a historical source, build vocabulary or practise extended writing through a Geography topic. This gives pupils meaningful opportunities to use their literacy skills in different contexts and helps them understand how these skills support learning across the curriculum.

Having one consistent teacher across these areas will also allow Mrs Beardmore to develop a detailed understanding of each learner's strengths and literacy needs and to adapt teaching and support accordingly.

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae Mrs Beardmore yn athrawes hynod brofiadol ac yn **arbenigwraig mewn dyslecsia**. Mae ganddi gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd, yn enwedig o ran cefnogi datblygiad llythrennedd a helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Credwn y bydd y cyfuniad hwn o gefnogaeth arbenigol, cysondeb a chyfleoedd pwrpasol i ddatblygu llythrennedd yn helpu dysgwyr i fagu hyder a chyflymu eu cynnydd.

Hoffem eich gwahodd i gyfarfod anffurfiol ar **ddydd Mawrth 15 Medi am 4.00pm**, lle cewch gyfle i gwrdd â Mrs Beardmore. Byddwn yn rhoi trosolwg o'r rhaglen, yn egluro sut y bydd y gwahanol bynciau a'r sgiliau llythrennedd yn cael eu datblygu, ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Edrychwn ymlaen at eich gweld bryd hynny ac at weithio'n agos gyda chi drwy gydol y flwyddyn i gefnogi cynnydd eich plentyn.

Yn gywir iawn

Mrs Gaynor Murphy

Dirprwy Bennaeth ac Athrawes Saesneg

Mrs Beardmore is a highly experienced teacher and a **specialist in dyslexia**. She brings a wealth of knowledge and expertise to the role, particularly in supporting literacy development and helping learners overcome barriers to learning. We believe that this combination of specialist support, consistency and purposeful opportunities to develop literacy will help pupils build confidence and accelerate their progress.

We would like to invite you to an informal meeting on **Tuesday 15 September at 4.00pm**, where you will have the opportunity to meet Mrs Beardmore. We will provide an overview of the programme, explain how the different subjects and literacy skills will be developed, and answer any questions you may have.

We look forward to seeing you then and to working closely with you throughout the year to support your child's progress.

Kind regards

Mrs Gaynor Murphy

Deputy Headteacher & English Teacher

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE